



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Pontiets
Heol Llanelli
Pontiets
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5UB**

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2017

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/09/2017

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Pontiets ym mhentref Pontiets ac fe'i cynhelir gan awdurdod Sir Gâr. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion 4 -11 oed. Mae 54 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 7 o blant meithrin.

Daw 30% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae oddeutu 26% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (20%). Caiff y disgyblion eu haddysgu mewn tri dosbarth cymysg o ran oedran, gan gynnwys disgyblion oed meithrin. Mae oddeutu 36% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Chwefror 2010. Ers mis Medi 2014, penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd fel pennaeth dros dro ar ddwy ysgol, sef Pontiets ac Ysgol Pum Heol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Pontiets yn 2016-2017 yw £3,901. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gâr yw £9,689, a'r lleiafswm yw £3,083. Mae Ysgol Gynradd Pontiets yn y 30ain safle o'r 100 ysgol gynradd yn Sir Gâr o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Digonol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- medrau llythrennedd llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda
- llawer o ddisgyblion ar frig y Cyfnod Sylfaen yn darllen gydag ystyr a dealltwriaeth gadarn o'r testun
- lefelau presenoldeb yr ysgol dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn yr 25% neu'r 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg
- Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda ac maent yn ymdrin ag oedolion yn gwrtais gan ddangos gofal a pharch tuag at gyfoedion
- athrawon yn cynllunio profiadau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda
- yr ysgol yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn darparu'n effeithiol ar eu cyfer

Fodd bynnag:

- nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder
- mae cystrawen brawddegau lleiafrif o ddisgyblion yn y Gymraeg yn wan ac mae gwallau elfennol yn safon yr atalnodi
- nid yw'r cynlluniau cyfredol yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn llawn, yn enwedig ar gyfer disgyblion hynaf yr ysgol
- nid yw ychydig o ddisgyblion mwy abl yn gwneud y cynnydd disgwylidig

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar godi safonau
- y pennaeth yn cynnwys yr holl randdeiliaid ym mhrosesau'r ysgol
- gan lywodraethwyr wybodaeth gynyddol am feysydd sydd angen eu gwella
- y pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro gwariant yn ofalus ac yn rheoli'r gyllideb yn llwyddiannus

Fodd bynnag:

- nid oes neb â chyfrifoldeb arwain yr ysgol yn ystod y cyfnodau lle nad yw'r pennaeth yn bresennol
- nid yw hunanarfarnu'r ysgol yn ddigon arfarnol nac yn adnabod na ffocysu'n glir ar yr hyn sydd angen ei wella bob amser
- nid oes cysylltiad amlwg rhwng prosesau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella
- nid yw llywodraethwyr yn monitro targedau'r cynllun gwella'r ysgol nac yn sicrhau bod dogfennau pwysig yn eu lle ac yn gyfredol

Argymhellion

- A1 Gwella medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion cyfnod allweddol 2
- A2 Sicrhau cyfleodd cyson i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd ar draws yr ardaloedd dysgu a'r cwricwlwm
- A3 Sicrhau bod yr addysgu'n cynnig y lefel briodol o her, ac yn meithrin medrau dysgu annibynnol disgyblion er mwyn iddynt gymryd rôl fwy gweithredol yn eu dysgu
- A4 Sicrhau bod arweinwyr yn mynd i'r afael â'r materion diogelu
- A5 Gwella strwythur arweinyddiaeth yr ysgol er mwyn sicrhau cyfeiriad strategol clir ac atebolrwydd ar bob lefel
- A6 Cryfhau'r broses hunanarfarnu er mwyn adnabod yn glir flaenoriaethau ar gyfer gwelliant a sicrhau cynnydd yn eu herbyn

Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau iaith a mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn isel. Er hyn, mae llawer yn gwneud cynnydd addas yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llythrennedd llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn llwyddo i wneud cynnydd cadarn yn eu defnydd o'r Gymraeg yn fuan ar ôl dechrau'r ysgol. O ganlyniad, erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu'n glir gan ddefnyddio geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae'r disgyblion yn trafod bywyd a diwylliant Affrica fel rhan o stori 'Syrpreis Handa'. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif yn sgwrsio am eu gwaith yn briodol. Maent yn ymateb i gwestiynau athrawon yn addas ac yn esbonio eu syniadau'n effeithiol, er enghraifft wrth egluro a thrafod effaith gweithgareddau corfforol ar guriad y galon.

Ar frig y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen gydag ystyr a dealltwriaeth gadarn o'r testun. Mae ychydig iawn o'r disgyblion sy'n ddarllenwyr mwy hyderus yn newid goslef llais yn effeithiol er mwyn dal sylw'r gwrandawyr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn y Saesneg. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen Cymraeg lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu yn unol â'u hoed a'u gallu. Mae diffyg hyder yn amharu ar ruglder a'u dealltwriaeth o'r hyn y maent yn ei ddarllen. Ar draws y cyfnod, mae llawer yn defnyddio uwch-fedrau darllen yn dda wrth gywain gwybodaeth mewn llyfrau cyfeirio, er enghraifft wrth ddarganfod ffeithiau am yr artist Andy Warhol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus mewn amrywiaeth o ffurfiau ar draws y meysydd dysgu, gan ddefnyddio strwythur brawddegau clir ac atalnodi cadarn. Maent yn defnyddio ansoddeiriau a geirfa ddiddorol yn eu gwaith ysgrifenedig, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad papur newydd yn seiliedig ar stori 'Jac a'r Goeden Ffa'. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu yn y Gymraeg, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygl papur newydd a llythyr at garcharor yn seiliedig ar thema'r Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, mae cystrawen brawddegau lleiafrif o ddisgyblion yn wan ac mae gwallau elfennol yn safon yr atalnodi. Mae safonau ysgrifennu Saesneg llawer o ddisgyblion yn gadarn. Enghraifft nodedig yw'r ffordd mae disgyblion yn ysgrifennu llythyr at rieni i'w hannog i ddod i'r ysgol i brynu cynnyrch cartref ac wrth ysgrifennu dyddiadur yn seiliedig ar lyfr 'James and the Giant Peach'.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol, ond mewn ystod gyfyng o sefyllfaoedd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn llwyddo i drin data'n effeithiol a chreu graff bloc o'r canlyniadau

yn annibynnol. Mae llawer yn cymhwyso'u medrau rhif yn dda i ddatrys problemau yng nghyd-destun gwaith thema. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae disgyblion yn cyfrifo faint o gynhwysion sydd eu hangen arnynt i wneud swm penodol o ddanteithion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau mathemategol mwyafrif y disgyblion mewn gwersi ac yn eu llyfrau mathemateg yn gadarn. Ond nid yw ychydig o ddisgyblion mwy abl yn cyflawni i'w llawn botensial. Mewn gwyddoniaeth, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn addas wrth gofnodi canlyniadau ymchwiliadau gwyddonol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon cyson mewn agweddau eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn hyderus wrth reoli tegau er mwyn dilyn llwybr ar draws ynys y môr ladron. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau'n addas i gyflwyno gwybodaeth, er enghraifft wrth ei ddefnyddio i osod lluniau a thestun. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau TGCh llawer o ddisgyblion yn datblygu'n addas, er enghraifft wrth gyflwyno ffeithiau am un o ryfeddodau Cymru gan ddefnyddio rhaglen amlgyfrwng.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gan yr ysgol yn aml. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwylidig mewn llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemategol wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion am dair o'r pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is mewn datblygiad mathemategol, tra bod perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf a'r 50% is am y pedair blynedd diwethaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwylidig mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg, tra mae perfformiad yr ysgol mewn gwyddoniaeth wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf.

Mae perfformiad yr ysgol ar y lefelau uwch mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg wedi amrywio o'r 50% uwch a'r 25% isaf, tra mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi bod yn gyson yn y 25% isaf am y pedair blynedd diwethaf.

Gan fod niferoedd mor fach, nid yw'n bosibl cymharu perfformiad bechgyn a merched na pherfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim â'r rhai nad ydynt yn gymwys.

Lles: Digonol

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth. Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Maent yn ymdrin ag oedolion yn gwrtais ac yn dangos gofal a pharch tuag at gyfoedion. Mae gan lawer ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cadw'n ddiogel yn y gymuned ac ar y we.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n ffit. Mae llawer yn cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u hiechyd. Enghraifft o hyn yw'r 'Clwb Joio' a'r gweithgaredd tyfu llysiau i'w gwerthu i rieni. Fodd bynnag, mae'r diffyg toiledau sydd yn yr ysgol yn cael effaith negyddol ar les disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu'n dda mewn gwersi ac yn awyddus iawn i ddysgu. Mae llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn cyfranogi'n briodol tuag at yr hyn maent yn ei ddysgu. Fodd bynnag, nid yw gallu'r disgyblion i wella eu dysgu eu hunain nac i weithio'n annibynnol wedi datblygu'n llawn. Nid ydynt yn cymryd digon o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae'r cyngor ysgol, y cyngor eco a'r llysgenhadon gwych yn lleisio eu barn yn effeithiol ym mhrosesau'r ysgol. Enghraifft o hyn yw'r ffordd mae disgyblion wedi cyfrannu at wella amgylchedd allanol a datblygu parc chwarae o fewn y pentref. Mae hyn yn datblygu ymdeimlad o falchder yn eu gymuned.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb yr ysgol wedi bod yn yr 25% neu'r 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Digonol
--	----------------

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r staff yn darparu ystod o brofiadau dysgu cynhwysfawr i'r disgyblion, sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn effeithiol. Mae'r athrawon yn cyd-gynllunio gweithgareddau ysgogol i fodloni anghenion llawer o ddisgyblion. Serch hynny, nid yw pob athro yn cynllunio'n ddigon bwriadus er mwyn sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol ac i arwain eu dysgu eu hunain, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn amlinellu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn briodol trwy eu hymgorffori'n addas yn y cynlluniau gwaith. Gwna'r athrawon ddefnydd priodol o weithgareddau buddiol sy'n datblygu medrau llythrennedd a TGCh y disgyblion yng ngwaith thematig y dosbarth. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau'n sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn llawn, yn enwedig ar gyfer disgyblion hynaf yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn gadarn ar draws yr ysgol. Trwy astudio hanes lleol, chwedlau, a gwaith artistiaid lleol fel Sylvia Bain,

mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol a diwylliant Cymru yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n gadarn i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang a chynaliadwyedd. Mae'r gwaith da hwn yn cael ei atgyfnerthu ymhellach gan y cyngor eco sy'n hyrwyddo dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o ddulliau o fyw'n gynaliadwy yn effeithiol.

Addysgu: Digonol

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio profiadau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae cydweithio effeithiol rhwng athrawon a cymorthyddion. Mae staff yn modelu iaith glir a chywir, sy'n cyfrannu'n dda at safonau llafar y disgyblion ieuengaf. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn amrywio eu dulliau addysgu'n llwyddiannus er mwyn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw athrawon yn sicrhau bod pob disgybl yn cael eu herio'n ddigonol. Mae gor-arwain a gorddibyniaeth ar ymyrraeth gan athrawon yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i wneud penderfyniadau ac arwain eu dysgu eu hunain.

Mae asesu ar gyfer dysgu ar waith ond nid yw'n effeithiol ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn marcio gwaith yn ddisgyblion yn briodol ac yn cynnig sylwadau addas. Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau bob amser yn ddigon penodol, nac yn arwain disgyblion i wybod sut i wella eu gwaith. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod briodol o ddeunyddiau asesu a phrofion safonol i asesu cyflawniad disgyblion. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae arweinwyr yr ysgol wedi datblygu system electronig gynhwysfawr sy'n olrhain cynnydd unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr yn briodol. Er hynny, nid yw arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn ddigon effeithiol er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth gywir ar gyfer y disgyblion. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwylidig, yn enwedig disgyblion mwy abl.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys sylwadau gwerthfawr ar gynnydd eu plentyn ynghyd â thargedau addas er mwyn gwella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae trefn gwasanaethau dyddiol, gan gynnwys amser cylch, yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrion ar werthoedd yn atgyfnerthu hyn yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o wasanaethau arbenigol er mwyn gwella lles disgyblion, er enghraifft therapydd iaith, gwasanaethau cymdeithasol, heddlu, a'r nyrs ysgol. Mae cyflwyniadau i rieni a disgyblion i godi eu

hymwybyddiaeth am sicrhau diogelwch ar y we yn rhan o gynlluniau'r ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o bwysigrwydd cadw'n iach a heini yn gadarn. Mae'r elfen hon yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus drwy'r ddarpariaeth gwricwlaidd a darpariaeth ehangach yr ysgol yn cynnwys ymgyrch 'milltir y dydd'.

Mae'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegu yn newydd i'w swydd, ac mewn amser byr wedi gosod nifer o weithdrefnau addas mewn lle ar gyfer y garfan hon o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn defnyddio ymyraethau'n effeithiol. Mae'r defnydd da o gynlluniau addysg unigol gan y staff addysgu, yn arwain llawer o ddisgyblion at wneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion na rhieni yn chwarae rôl lawn yn y broses o osod a gwerthuso'r targedau gwella.

Yr amgylchedd dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chartrefol ble caiff pob disgybl fynediad cyfartal i'r gweithgareddau a drefnir ar eu cyfer. Mae gan yr ysgol bolisiau a gweithdrefnau priodol sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn addas gan gynnwys sicrhau mynediad hygrych i'r adeilad. Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r coridorau'n lliwgar a symbylus, ac arddangosir gwaith y disgyblion ar y waliau yn effeithiol. Mae hyn yn ennyn balchder ymysg y disgyblion.

Mae cyflenwad da o adnoddau pwrpasol ar gael, sy'n cyfoethogi'r dysgu tu fewn i'r adeilad a thu allan. Mae adeiladau'r ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw i safon briodol, o ystyried eu hoed. Fodd bynnag, mae ansawdd a nifer y toiledau ar hyn o bryd yn ddiffygiol, ac yn cael effaith negyddol ar les disgyblion.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Digonol
--	----------------

Arweinyddiaeth: Digonol

Ers ei phenodiad, mae'r pennaeth wedi rhoi arweiniad pwrpasol i'r ysgol. Mae ganddi weledigaeth glir i godi safonau a sicrhau bod bob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial. Er mwyn gwireddu hyn, mae'n cynnwys yr holl randdeiliaid ym mhrosesau'r ysgol. Mae wedi rhoi nifer helaeth o weithdrefnau newydd a chadarnar waith. Mae'r trefniadau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau gwaith disgyblion, er enghraifft darllen yn y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn llai datblygedig ym mhen uchaf yr ysgol.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi bod trwy gyfnod o ansefydlogrwydd o ran staffio'r ysgol. Yn gyffredinol, mae'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau, ond nid yw'r holl swydd ddisgrifiadau yn ddigon penodol ac nid ydynt i gyd yn gyfredol. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn gallu dwyn unigolion i gyfrif am safonau. Mae'r pennaeth wedi adnabod yr angen i ddatblygu arweinwyr o fewn yr ysgol ond mae ansefydlogrwydd o ran sefyllfa staffio wedi llesteirio hyn.

Mae'r pennaeth yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd i drafod agweddau o waith yr ysgol. Mae hyn yn hyrwyddo cydweithio pwrpasol rhwng yr holl staff. Fodd bynnag,

nid yw'n glir pwy yw'r person dynodedig sy'n gyfrifol am yr ysgol yn absenoldeb y pennaeth. Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r cynllun gwella'r ysgol sy'n cyfrannu effeithiol at welliannau yn y ddarpariaeth a hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn llwyddiannus.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac ymroddgar iawn. Mae'r pennaeth wedi cychwyn trefniadau newydd er mwyn datblygu eu rôl strategol a'u gallu i herio'r ysgol. O ganlyniad i'r ymweliadau rheolaidd â'r ysgol, mae eu dealltwriaeth o berfformiad a safonau'r disgyblion yn datblygu. Mae ganddynt wybodaeth gynyddol am feysydd sydd angen eu gwella. Mae'r teithiau dysgu a'r cyfleoedd i graffu ar waith disgyblion yn fodd i ehangu eu rôl ymhellach. Fodd bynnag, nid ydynt yn monitro targedau'r cynllun gwella ysgol na sicrhau bod dogfennaeth bwysig yn eu lle ac yn gyfredol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol fel y Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau rhifedd ar draws y cwricwlwm wedi'u datblygu'n llawn.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae'r trefniadau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn addas. Mae'r pennaeth, llywodraethwyr a'r athrawon yn dadansoddi data'n rheolaidd ac mae arweinwyr yn arsylwi gwersi ac yn craffu ar lyfrau disgyblion. Mae hyn yn datblygu ymwybyddiaeth yr athrawon o safonau disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r canfyddiadau i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwelliannau ysgol gyfan. Mae'r pennaeth yn weithredol wrth geisio canfod barn rhieni trwy holiaduron achlysurol. Mae hyn wedi arwain at gyfoethogi profiadau disgyblion mewn clybiau ar ôl ysgol.

Mae adroddiad hunanarfarnu diweddaraf yr ysgol yn ddogfen briodol, sydd ar y cyfan, yn rhoi darlun clir o gryfderau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon arfarnol nac yn adnabod na ffocysu'n glir ar yr hyn sydd angen ei wella.

Mae'r blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar wella deilliannau, ond nid oes cysylltiad amlwg rhwng prosesau'r adroddiad hunanarfarnu â blaenoriaethau'r cynllun. Mae'r cynllun gwella yn nodi'r dulliau gweithredu fesul targed a'r deilliant disgwylidig. Mae'n manylu'n briodol ar gyfrifoldebau gweithredu yn ogystal ag adnoddau a chost ar gyfer cefnogi'r datblygiadau. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro cynnydd yn ddigon trylwyr ac nid oes gan y llywodraethwyr rôl weithredol yn y broses.

Er bod rhai datblygiadau buddiol, nid oes digon o gynnydd yn erbyn argymhellion yr arolygiad blaenorol. Er enghraifft, araf fu'r cynnydd wrth ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion a gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau effeithiol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'n llwyddiannus a chael effaith arwyddocaol ar les a deilliannau disgyblion. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni trwy gylchlythyron rheolaidd, a chyfryngau cymdeithasol. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn gefnogol iawn i'r

ysgol, ac yn cyfrannu symiau ariannol rheolaidd sy'n cael eu defnyddio i dalu am fysiau ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaeth gadarn â'r gymuned. Mae ymweliadau â busnesau lleol i ddysgu am hylendid bwyd, ac ymweliadau gan aelodau o'r 'Clwb Garddio' i ddatblygu gardd yr ysgol yn cyfrannu'n dda at brofiadau'r disgyblion ac yn hyrwyddo'u balchder at eu hardal leol. Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o gefnogaeth menter leol sy'n cynnal sesiynau i gadw'n heini. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at les y disgyblion.

Mae cysylltiadau cadarn a threfniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda'r ysgolion uwchradd ac mae amrywiaeth o weithgareddau pontio cadarnhaol ar gyfer disgyblion. Mae cyfle gwerthfawr i'r ysgol ddefnyddio adnoddau'r ysgol uwchradd i hyrwyddo gwaith gwyddonol. Mae'r trefniadau pontio effeithiol hyn yn sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgu disgyblion wrth iddynt symud i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Cydweithia'r ysgol yn bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd i gymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd. Mae'r prosesau hyn wedi arwain at fwy o gysondeb wrth lefelu gwaith disgyblion.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro gwariant yn ofalus ac yn rheoli'r gyllideb yn llwyddiannus. Mae gwariant yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r cynllun gwella'r ysgol. Er bod gan yr ysgol arian sylweddol wrth gefn, mae'r cyllid hwn wedi'i glustnodi ar gyfer gwariant penodol i wella'r ddarpariaeth a lles disgyblion. Defnyddir y Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol, sydd wedi arwain at welliannau llwyddiannus mewn safonau darllen grwpiau penodol o ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau.

Er bod yr ysgol wedi mynd trwy gyfnod o ansefydlogrwydd staffio, mae'r sefyllfa'n gwella erbyn hyn. Gwna athrawon ddefnydd perthnasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, ac fe gaiff y trefniadau ar gyfer hyn eu rheoli'n dda. Mae gan yr ysgol adnoddau dysgu priodol sy'n hybu ac ysgogi'r dysgu yn addas. Gwneir defnydd effeithiol o'r ardal tu allan i gefnogi ac ysgogi profiadau dysgu.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu briodol trwy gydweithio ag ysgolion y clwstwr. Mae cyfleoedd perthnasol i staff wella eu medrau a'u gwybodaeth broffesiynol. Mae hynny'n cael effaith gadarnhaol ar gynllunio ac wrth roi cefnogaeth i ddisgyblion bregus.

O ystyried safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ac ansawdd y ddarpariaeth dros amser, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6692023 - Ysgol Gynradd Pontiets

Nifer y disgyblion ar y gofrestr 53
 Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd 25.5
 Grŵp PYD 4 (24%<PYD<=32%)

Cyfnod Sylfaen

	2013	2014	2015	2016
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	9	5	5	7
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	77.8	80.0	80.0	57.1
Chwarter meincnod	3	4	4	4
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	9	5	5	7
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	77.8	80.0	80.0	57.1
Chwarter meincnod	3	4	4	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	33.3	0.0	20.0	14.3
Chwarter meincnod	2	4	4	4
Datblygiad mathemategol (MDT)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	9	5	5	7
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	77.8	80.0	100.0	71.4
Chwarter meincnod	4	4	1	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	22.2	20.0	60.0	28.6
Chwarter meincnod	3	3	1	3
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	9	5	5	7
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	88.9	80.0	100.0	85.7
Chwarter meincnod	4	4	1	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	55.6	40.0	40.0	0.0
Chwarter meincnod	2	3	4	4

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6692023 - Ysgol Gynradd Pontiets

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	53
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaedd 3 blynedd	25.5
Grŵp PYD	4 (24%<PYD<=32%)

Cyfnod allweddol 2

	2013	2014	2015	2016
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	6	6	5	5
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	66.7	100.0	60.0	100.0
Chwarter meincnod	4	1	4	1
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	6	6	5	5
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	66.7	100.0	100.0	100.0
Chwarter meincnod	4	1	1	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	33.3	33.3	40.0	20.0
Chwarter meincnod	2	3	3	4
Cymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	6	6	5	5
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	66.7	66.7	60.0	100.0
Chwarter meincnod	4	4	4	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	33.3	16.7	0.0	20.0
Chwarter meincnod	2	4	4	3
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	6	6	5	5
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	83.3	100.0	60.0	100.0
Chwarter meincnod	3	1	4	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	0.0	0.0	0.0	40.0
Chwarter meincnod	4	4	4	2
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	6	6	5	5
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	100.0	100.0	100.0	100.0
Chwarter meincnod	1	1	1	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	0.0	0.0	0.0	20.0
Chwarter meincnod	4	4	4	4

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	23	23 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	23	23 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	23	23 100%	0 0%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		96%	4%	
The school teaches me how to keep healthy	23	22 96%	1 4%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	23	22 96%	1 4%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	23	23 100%	0 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	23	23 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	23	23 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	23	22 96%	1 4%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		90%	10%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	23	23 100%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	23	20 87%	3 13%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		76%	24%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	23	14 61%	9 39%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	16	7 44%	7 44%	2 12%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		62%	34%	3%	1%		
My child likes this school.	16	11 69%	5 31%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	15	10 67%	5 33%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	16	11 69%	5 31%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	35%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	16	5 31%	8 50%	3 19%	0 0%	0	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		46%	48%	4%	1%		
Teaching is good.	16	12 75%	4 25%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		60%	37%	2%	1%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	16	10 62%	6 38%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		64%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	16	6 38%	9 56%	1 6%	0 0%	0	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		48%	43%	7%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	16	8 50%	6 38%	2 12%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		59%	35%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	16	7 44%	7 44%	2 12%	0 0%	0	Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		59%	38%	3%	0%		
My child is safe at school.	16	7 44%	8 50%	1 6%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	32%	2%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	16	10 62%	6 38%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		55%	39%	5%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	16	8 50%	5 31%	3 19%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		48%	41%	9%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	16	9 56%	4 25%	3 19%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	5%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	16	7 44%	6 38%	2 12%	0 0%	1	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		48%	42%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	16	7 44%	9 56%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i dded yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		57%	40%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	15	4 27%	3 20%	3 20%	0 0%	5	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		52%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	16	6 38%	6 38%	3 19%	1 6%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		53%	39%	6%	1%		
The school is well run.	16	5 31%	8 50%	3 19%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	34%	4%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Anwen Eluned Griffith	Arolygydd Cofnodol
Hazel Hughes	Arolygydd Tîm
David Owen Jenkins	Arolygydd Lleyg
Owain Roberts	Arolygydd Cymheiriaid
Eira Rumble	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.